

Nodiadau'r Grŵp Trawsbleidiol ar Nyrsio a Bydwreigiaeth

17 Hydref 2018

Diogelu Gofal Cleifion drwy Lefelau Staffio Diogel

Yn bresennol:

- Dr Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
- Tina Donnelly CBE TD DL FRCN, Ysgrifennydd y Grŵp a Chyfarwyddwr, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

- Gaynor Jones MBE, Cadeirydd y Bwrdd, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
- Nigel Downes, Cyfarwyddwr Cyswllt, Arfer Proffesiynol, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
- Nicola Davis-Job, Cynghorydd Gofal Acíwt ac Arweinyddiaeth, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
- Dr Sue Thomas, Cynghorydd Gofal Sylfaenol, Cymunedol a'r Sector Annibynnol, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
- Lisa Turnbull, Cynghorydd Polisi a Materion Cyhoeddus, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
- Rosie Raison, Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

- Caroline Jones AC
- Denise Llewellyn, Aelod o'r Bwrdd, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
- Alison Magor, Aelod o'r Bwrdd, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, Rheolwr Tîm Nyrsys Ardal, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Sharon Williams, Rheolwr Cartref Gofal, Sŵn-y-Môr, Port Talbot
- Nicky Hughes, Nyrs Ardal Arweiniol, De Caerdydd a'r De Ddwyrain, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Richard Desir, Uwch Nyrs Trawsnewid Gweithlu/Rhaglen Dyfodol Clinigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Gillian Knight, Swyddog Nyrsio, Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru
- Julie Morgan, Nyrs Iechyd Meddwl Gofrestredig
- Sarah Hill, Nyrs Gofrestredig, Aelod o Goleg Nyrsio Brenhinol Cymru

1. Croeso a chyflwyniad gan Dr Dai Lloyd AC

Roedd David Rees, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Nyrsio a Bydwreigiaeth, wedi anfon ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod, felly camodd Dr Dai Lloyd i'r bwch yn garedig iawn i gadeirio'r cyfarfod. Croesawodd Dr Lloyd y rhai a oedd yn bresennol i'r cyfarfod ac yna dechreuodd ar y trafodion ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

2. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol

Ethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Grŵp:

- Cafwyd cadarnhad, cyn y cyfarfod, fod David Rees AC yn fodlon parhau i fod yn Gadeirydd ac ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.
 - Enwebydd: Dai Lloyd AC
 - Eilydd: Caroline Jones AC
- Enwebwyd Helen Whyley, Cyfarwyddwr Cyswllt (Cysylltiadau Cyflogaeth), Coleg Brenhinol Nyrsio Cymru, i fod yn Ysgrifennydd y Grŵp yn ddiwrthwynebiad. Byddai hyn i gymryd lle Tina Donnelly gan y byddai'n camu i lawr fel Cyfarwyddwr Coleg Brenhinol Nyrsio Cymru cyn bo hir.

Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gymeradwywyd gan y rhai a oedd yn bresennol:

- Cofnodion y cyfarfod blynyddol diwethaf (3 Hydref 2017)
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf (8 Mawrth 2018)

3. Diogelu Gofal Cleifion drwy Lefelau Staffio Diogel: Trafodaeth Grŵp

Yn dilyn rhai myfyrdodau cychwynnol ar yr ymgyrch ar gyfer deddfwriaeth lefelau staff nyrsio hyd yn hyn, a'r ffordd y datblygwyd y ddeddfwriaeth, cadeiriodd Dai Lloyd drafodaeth Grŵp wedi'i strwythuro'n fras ynghylch sut y gellir diogelu gofal cleifion drwy lefelau staffio diogel, a'r pwysigrwydd, felly, o ymestyn y ddeddfwriaeth bresennol i leoliadau ychwanegol. Codwyd y pwyntiau a materion a ganlyn yn ystod y sgwrs:

Gweithredu'r ddeddfwriaeth

- Cafwyd trafodaeth ynghylch y defnydd o'r gair 'diogel' a'r cyngor cyfreithiol a roddwyd gan gyfreithwyr Llywodraeth Cymru ar y pryd a gadarnhaodd na allai 'Bil Staffio Diogel' fod yn enw'r Bil. Roedd pobl a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn gresynu dros gael gwared ar y gair a theimlwyd bod gwerth o hyd o ddefnyddio'r gair 'diogel' yng nghyd-destun lefelau staffio.
- Codwyd rôl y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon wrth graffu ar y broses o weithredu'r ddeddfwriaeth a chadarnhaodd Dai Lloyd y byddai'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio yn cael ei hychwanegu at y gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol y byddai'r Pwyllgor yn ei wneud ar yr adeg briodol.
- Trafodwyd y ddyletswydd ar Fyrddau Iechyd i adrodd ar eu cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth, a chydabuwyd nad yw'n hysbys, ar hyn o bryd, sut olwg fydd ar yr adroddiadau hynny, na pha mor amrywiol y maent yn debygol o fod. Yn ddelfrydol, byddai rhywfaint o unffurfiaeth rhyngddynt i alluogi cymhariaeth a chytunodd Dai Lloyd y byddai'r agwedd hon yn rhan o'r gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol.

Ymestyn y ddeddfwriaeth

- Nodwyd mai'r ffrwd waith paediatreg oedd y fwyaf datblygedig o ran ymestyn y ddeddfwriaeth i fod yn gymwys i wardiau plant, ac roedd hyn yn rhannol oherwydd y bu arweinydd prosiect pwrpasol yn gweithio'n amser llawn i weithio ar y maes hwnnw o'r project. Awgrymwyd y gallai ffrydiau gwaith eraill, megis iechyd cymunedol ac iechyd meddwl gael budd o arweinydd prosiect pwrpasol o'r fath.

- Cytunwyd y dylid cael mwy o dryloywder ynghylch y cynnydd y mae'r ffrydiau gwaith gwahanol wedi'i wneud ac ym mha gyfnod y mae pob un. Dylai'r wybodaeth honno fod ar gael yn rhwyddach.
- Dywedwyd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru roi digon o adnoddau i bob ffrwd waith er mwyn i bob un symud ymlaen yn gyflym. Mae mwy a mwy o ofal cymhleth yn cael ei ddarparu y tu allan i leoliadau ysbyty (e.e. yn y gymuned ac mewn cartrefi gofal) ac felly mae'n hollbwysig bod y Ddeddf yn ymestyn i'r meysydd hyn cyn gynted â phosibl.
- Rhoddwyd diweddariad ar y ffrwd waith nyrsio cymunedol ac ardal a rhoddwyd amserlen o 18-24 mis ar gyfer profi ac ymestyn y ddeddfwriaeth. Croesawyd y diweddariad hwn er i'r nyrsys ardal a oedd yn bresennol sôn am yr angen brys i fuddsoddi a thyfu'r gweithlu a'r pwysau cynyddol sydd ar y timau presennol. Cydnabuwyd y gellid hwyluso'r gwaith a wneir gan Richard Desir yn ymwneud â'r ffrwd waith cymunedol drwy ddyrannu adnoddau staff ychwanegol iddi.
- Codwyd mater lefelau staffio mewn perthynas â chartrefi gofal, a nodwyd, er bod y sector cartrefi gofal yn gryf o blaid gweithredu lefelau staffio nyrsio diogel, fod recriwtio i'r sector hwn yn parhau i fod yn her sylweddol a bu'n rhaid i rai cartrefi gau oherwydd diffyg staff nyrsio. O ganlyniad, mae'n amlwg bod angen i Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) sicrhau bod y gweithlu yn y maes hwn yn cynyddu er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon.
- Trafodwyd y cynnydd y mae'r Alban yn ei wneud gyda'i deddfwriaeth ei hun; mae ei deddfwriaeth arfaethedig, ar ei ffurf bresennol, yn gymwys ym mhob lleoliad, felly efallai y bydd Cymru, ar ôl arwain y ffordd gyda deddfwriaeth, yn cael ei gadael ar ôl os na fydd yn ymestyn y Ddeddf i feysydd eraill mewn da bryd.

4. Camau a y cytunwyd arnynt

- Yn ei gapasiti fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, cadarnhaodd Dai Lloyd y byddai'n canfod amser ym mlaenraglen waith y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i nyrsio cymunedol ac ardal.
- Byddai gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol y Pwyllgor ar y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) hefyd yn parhau i fod ar yr agenda.

5. Sylwadau i gloi a diolchiadau

Tynnodd Dai Lloyd AC y drafodaeth i ben a diolchodd yn ffurfiol i bawb a oedd yn bresennol am gyfrannu i'r cyfarfod, ac i Caroline Jones fel yr Aelod Cynulliad arall a oedd yn bresennol.

Gwnaeth Gaynor Jones sylwadau i gloi hefyd a dywedodd y byddai'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn parhau â'i waith caled o ran mynd ar drywydd lefelau staffio diogel ar draws pob lleoliad yng Nghymru. Nodwyd hefyd mai hwn fyddai cyfarfod olaf Tina Donnelly fel Cyfarwyddwr y Coleg Nyrsio Brenhinol a diolchwyd iddi am ei chyfraniad i'r Grŵp dros y blynyddoedd.

Bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol yn y gwanwyn a chaiff dyddiad ei ddsbarthu maes o law. Thema'r cyfarfod fydd cartrefi gofal a'r sector annibynnol.